

Thema Ymchwil: Cymdeithas

Astudiaeth Achos

# Datblygu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ofalgar I Weision Cyhoeddus Yng Nghymru


**YMCHWILWYR**

Yr Athro Mark Whitehead
Yr Athro Rhys Jones
Rachel Lilley
Dr Jessica Pykett
Dr Rachel Howell



**TROSOLWG**

Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi datblygu rhaglen hyfforddi MBBI (Deall Ymddygiad a Gwneud Penderfyniadau yn Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar) sydd wedi llywio arferion y sector cyhoeddus yng Nghymru a sefydliadau eraill yn y DU.







## YR YMCHWIL

Datblygwyd y rhaglen hyfforddi MBBI o waith ymchwil a oedd yn edrych ar y cysylltiadau rhwng arferion oesol myfyrio ymwybyddiaeth ofalgar a mewnwelediadau modern o du'r gwyddorau ymddygiadol. Mabwysiadwyd y rhaglen gan y sector cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015); ac mae sefydliadau eraill ledled y DU hefyd wedi ei defnyddio. Mae'r rhaglen wedi llywio diwygio strategol ym maes hyfforddiant yn y gweithle, ynghyd â newidiadau radical mewn arferion gwaith.

> **"Mae ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi defnyddio cyfuniad radicalaidd o hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar a mewnwelediadau o ymddygiad i'n helpu i weld sut y gall gweision cyhoeddus ddod yn arweinwyr mwy effeithiol, yn benderfynwyr gwell a chynnig cyngor gwell. Ac rydw i am i'r mewnwelediadau hyn gyfrannu at y math o arweinyddiaeth rydw i am weld yn ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru."**

**Y GWIR ANRH. MARK DRAKEFORD MS, PRIF WEINIDOG CYMRU. CYNHADLEDD DATBLYGU YMWYBYDDIAETH OFALGAR YNG NGHYMRU, 21 TACHWEDD 2019**



## YR EFFAITH

### LLYWIO DIWYGIO STRATEGOL HYFFORDDIANT GWASANAETHAU PROFFESIYNOL YNG NGWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r MBBI wedi dod yn elfen graidd o Raglen Newid Mewnol y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru. Drwy'r rhaglen hon, mae'r MBBI wedi'i chyflwyno i oddeutu 200 o weision sifil ac wedi ailgyfeirio mentrau datblygu staff eraill. Mae'r MBBI wedi'i defnyddio i gefnogi ymgyrch 'Dewch i Drafod Parch' Ysgrifennydd Parhaol Gwasanaeth Sifil Cymru. Yn ogystal, cyflwynwyd fersiynau wedi'u haddasu o'r rhaglen MBBI i staff Llywodraeth Cymru i'w cefnogi drwy argyfwng Covid-19.

### DYLANWADU AR ARFERION GWAITH GWEISION SIFIL

Roedd y rhaglen yn gyfrifol am newid y ffordd roedd rhai uwch weision sifil yn ymwneud ag eraill ac yn eu gwneud yn fwy abl i fynd i'r afael â'r rhwystrau emosiynol i newid ymddygiad sy'n bodoli mewn sefydliadau mawr. Roedd hyn yn cefnogi'n uniongyrchol drefn weithredu'r arferion cydweithredol a thrawsnewidiol sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### DYLANWADU AR DDATBLYGU A CHYFLWYNO POLISÏAU CYHOEDDUS YNG NGHYD-DESTUN GOFYNION DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Cefnogodd y rhaglen ddatblygiad cydweithredol strategaeth genedlaethol Cymru lachach yn uniongyrchol. Defnyddiodd Is-adran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru wersi o'r rhaglen hefyd wrth ddatblygu a chyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gosod gofyniad deddfwriaethol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithio mewn ffyrdd mwy cydweithredol i ganfod atebion i broblemau parhaus. Mae'r Ddeddf yn her sylweddol i arferion gwaith Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhaglen MBBI wedi hwyluso gwell arferion gwaith o fewn Gwasanaeth Sifil Cymru, sydd wedi galluogi gwireddu'r Pum Ffordd o Weithio a ragwelwyd yn y Ddeddf.